Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl340

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Ambiwlans Sant Ioan – Wythnos y Glas Prifysgol Aberystwyth**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Bob blwyddyn, mae Ambiwlans Sant Ioan yn arwain cydweithrediad amlasiantaeth yn cefnogi myfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd i Brifysgol Aberystwyth.

Yn ystod mis Medi, mae Wythnos y Glas y Brifysgol yn dwysau economi'r nos yn Aberystwyth sy'n ychwanegu pwysau sylweddol ar yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, lletygarwch lleol a gwasanaethau allweddol eraill. Bwriad y cydweithrediad amlasiantaeth hwn yw dod â gwasanaethau allweddol ynghyd i sicrhau bod darpariaeth gadarn mewn lle i sicrhau bod Wythnos y Glas yn cael ei drosglwyddo mewn modd sy'n cael yr effaith lleiaf posibl ar y gymuned leol - gan gynnwys ar draws ymddygiad gwrthgymdeithasol, digwyddiadau'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol a phwysau cynyddol ar wasanaethau'r GIG.

Ymwelodd y Comisiynydd ag ystafell reoli'r digwyddiad hwn y llynedd ac roedd yn edmygu'r gweithgarwch a oedd yn cael ei gyflawni i gadw cymunedau'n ddiogel. Cynigwyd cyfraniad o £500.00 i gefnogi'r gweithgarwch yn 2024 yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu o atal niwed a'r gwerth: ymgysylltu'n eang.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod cyfraniad o £500.00 yn cael ei roi i gefnogi'r digwyddiad hwn o'r gyllideb Gwerthiant Eiddo a Ganfuwyd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 16/09/24**